Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Bontnewydd

Bontnewydd
Caernarfon
Gwynedd
LL55 2UF

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Bontnewydd

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Bontnewydd |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Ysgol Cyfrwng Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 207 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 160 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 28 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 4.1% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 16.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 88.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2022 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 22/02/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 13/05/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

# Crynodeb

Mae disgyblion, staff a rhieni yn ymfalchïo yn naws Gymreig, gynhwysol a theuluol yr ysgol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn adeiladu perthnasoedd gwaith cadarnhaol sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu cymuned ddysgu ofalgar, hapus a diogel.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cydweithio'n dda â'u cyfoedion. Maent yn gofyn cwestiynau ystyriol ac yn cyfrannu'n frwdfrydig at drafodaethau dosbarth. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau llafaredd cryf. Maent yn cymhwyso eu medrau siarad Cymraeg mewn ystod eang o weithgareddau ar draws yr ysgol. Mae hyn yn gryfder nodedig yn yr ysgol.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarn. Mae llawer yn datblygu eu medrau ysgrifennu a'u medrau mathemateg yn bwrpasol, hefyd. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd a'u medrau ysgrifennu estynedig yn gynyddol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Mae'r cwricwlwm yn cynnig profiadau dysgu dwfn, sy'n adeiladu ar fedrau a addysgwyd yn y gorffennol yn effeithiol. Ar y cyfan, mae'r sesiynau addysgu yn cynnwys gweithgareddau dysgu diddorol yn yr ardaloedd dysgu sy'n cynnig y lefel briodol o her. Serch hynny, mewn ychydig iawn o wersi, pan mae'r addysgu'n llai effeithiol, mae disgwyliadau'r athrawon yn rhy isel, cyflymder y gwersi'n rhy araf ac mae gorddibyniaeth ar fframweithiau parod sy'n cyfyngu ar allu'r disgyblion i ddatblygu eu hannibyniaeth wrth ddysgu.

Mae'r pennaeth yn arweinydd angerddol. Mae'n creu amgylchedd dysgu pwrpasol yn seiliedig ar ethos o 'ddysgu gyda'n gilydd' sy'n hybu gwaith tîm effeithiol. Mae'r amgylchedd anogol hwn, sy'n ganolog i'w strategaethau gwella, yn arwain at ymddygiad da a brwdfrydedd ar gyfer dysgu ymhlith disgyblion. Mae parodrwydd arweinwyr i wella arferion trwy werthusiadau rheolaidd yn arwain at brosesau gwella cadarn. Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi ac yn herio arweinwyr yn drylwyr, ac yn canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu trwy gylch monitro effeithiol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1. Cydlynu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ysgrifennu a rhifedd yn gynyddol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm

A2. Lleihau'r defnydd o fframweithiau parod er mwyn hybu medrau dysgu annibynnol disgyblion ymhellach

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae'r pennaeth yn arweinydd angerddol. Mae ganddo weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy'n seiliedig ar brif werthoedd yr ysgol, sef 'Parod, Parch, Diogel'. Mae ethos yr ysgol, sef 'dysgu gyda'n gilydd', yn meithrin ymdeimlad cryf o berthyn i un teulu sy'n cydweithio'n fwriadus mewn amgylchedd Cymreig. Mae hyn yn arwain at ddatblygu cymuned ddysgu ofalgar, hapus a diogel.

Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi a herio arweinyddiaeth yr ysgol yn dda gan sicrhau bod gwariant yn cysylltu'n fwriadus ag amcanion a chynlluniau gwella'r ysgol. Ar y cyd â'r staff, maent yn canolbwyntio ar wella ansawdd y ddarpariaeth a'r dysgu yn effeithiol. Mae'r llywodraethwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon o fewn y cylch monitro rheolaidd, sy'n dwyn athrawon i gyfrif am effaith eu gwaith ac i wella'r arferion addysgu.

Cefnogir y pennaeth gan dîm o staff ymroddgar. Maent yn hybu'r Gymraeg a Chymreictod yn fwriadus gan fanteisio ar bob cyfle i ddarparu profiadau cyfoethog i'r disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth gydweithio a chwarae. Mae datblygiad medrau llafaredd y disgyblion a'r modd y maent yn barod iawn i ddefnyddio'r Gymraeg y tu mewn a thu allan i'w dosbarthiadau yn nodwedd nodedig yn yr ysgol.

Mae'r pennaeth yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r athrawon gymryd rôl arweiniol, er enghraifft wrth ganolbwyntio ar ddatblygu elfennau o'r ddarpariaeth llythrennedd fel rhan o'r cynllun datblygu ysgol cyfredol. O ganlyniad, mae'r pennaeth a staff yn adnabod eu hysgol yn dda ac yn mynd i'r afael â llawer o'r gwelliannau yn fwriadus.

Mae staff yn gosod pwyslais cryf ar hybu ymddygiad cadarnhaol a meithrin parch disgyblion at ei gilydd yn effeithiol. Caiff hyn ei amlygu yn ymddygiad cadarnhaol y rhan fwyaf o ddisgyblion. Maent yn groesawgar i'w gilydd a gydag ymwelwyr ac yn cydweithio'n dda â'u cyfoedion, gan gyfrannu'n frwdfrydig i drafodaethau dosbarth. Mae llawer o'r disgyblion yn gwrando'n ofalus ar athrawon am gyfnodau estynedig. Ar y cyfan, maent yn barod i ddyfalbarhau a dangos gwydnwch ac mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn eu gwaith a'u cynnydd.

Mae disgyblion a'u rhieni yn croesawu'r gefnogaeth gynhwysfawr y mae staff yn ei darparu. Maent yn teimlo bod staff yn gwrando ar unrhyw bryderon sydd ganddynt ac yn ymateb yn amserol, lle bo'n briodol. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol a threfnus ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae staff yn gweithio'n gynhyrchiol gyda phartneriaethau allanol, gan dderbyn a gweithredu ar arweiniad a chyngor arbenigol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar gynnydd llawer o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan dlodi ac anfantais.

Mae’r athrawon yn darparu cyfleoedd rheolaidd i’r disgyblion ysgrifennu mewn ystod o destunau yn y ddwy iaith. Mae hyn yn galluogi llawer o’r disgyblion i wneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu. Fodd bynnag, ar adegau, mae gor-arwain gan yr athrawon yn llesteirio gallu’r disgyblion i ddatblygu eu medrau ysgrifennu yn annibynnol. Nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd bwriadus i gymhwyso eu medrau ysgrifennu estynedig yn gynyddol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau darllen y disgyblion ieuengaf yn datblygu’n gadarn iawn. O oedran cynnar, mae llawer yn datblygu eu hadnabyddiaeth o lythrennau a seiniau yn gadarn, ac yn defnyddio’r wybodaeth i ddarllen geiriau gyda hyder gynyddol. Mae llawer o’r disgyblion hŷn yn datblygu i fod yn ddarllenwyr rhugl yn y ddwy iaith. Maent yn mwynhau darllen testunau ffeithiol a ffuglen, ond cyfyngedig yw gwybodaeth lleiafrif o’r disgyblion am awduron o Gymru.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn mewn gwersi mathemateg. Maent yn datblygu dealltwriaeth briodol o gysyniadau mathemategol gwahanol ar lefel addas i’w hoedran. Pan gânt y cyfle, mae llawer yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn briodol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. At ei gilydd, nid oes digon o gyfleoedd bwriadus i ddisgyblion gymhwyso ystod eang o fedrau rhifedd yn gynyddol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau digidol cryf. Maent yn defnyddio technoleg yn grefftus tra’n cymhwyso eu medrau siarad Cymraeg mewn ystod eang o weithgareddau dysgu ar draws yr ysgol. Mae hwn yn nodwedd gref o’r ddarpariaeth. Mae’r disgyblion hynaf yn dechrau arbrofi’n llwyddiannus â’r technoleg ddiweddaraf trwy fewnbynnu cyfarwyddiadau clir i raglen dealltwriaeth artiffisial er mwyn creu delweddau unigryw i gyfoethogi eu cyflwyniadau.

Mae’r cwricwlwm yn darparu ehangder a dyfnder da o ran dysgu ar draws holl feysydd y cwricwlwm. Mae’r ystod dda o ymweliadau addysgol yn cyfoethogi dealltwriaeth y disgyblion o’r meysydd dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn datblygu eu gwybodaeth am brosesau democrataidd drwy fynychu siambr leol ac ymweld â San Steffan. Mae gweithgareddau dysgu diddorol yn cynnwys cyfleoedd i’r disgyblion gydweithio’n effeithiol â busnesau lleol i ddatblygu medrau dysgu gydol oes.

### Ciplun: defnyddio cysylltiadau pwrpasol gyda byd gwaith i ysgogi profiadau dysgu cyfoethog

Mae cysylltiadau effeithiol â chwmni siocled lleol yn darparu sbardun cyfoethog i'r disgyblion wrth iddynt gael yr her o lunio eu busnes siocled eu hunain. Maent yn cydweithio'n frwdfrydig i feithrin medrau ar gyfer bywyd a gwaith gan bennu eu meini prawf llwyddiant yn lled annibynnol. Mae'r sbardun yn galluogi'r disgyblion i ymdrin â gwahanol wybodaeth, datrys problemau a gweithio'n annibynnol yn hynod effeithiol.

Mae'r disgyblion yn cyfoethogi'r cysylltiadau cymunedol drwy wahodd rhieni i'r ysgol i brofi eu cynnyrch ac i alluogi'r disgyblion i gyfathrebu â chynulleidfa go iawn. Mae'r rhieni'n  gwerthfawrogi'r cyfleoedd hyn ac yn ymfalchïo yng nghynnydd eu disgyblion wrth iddynt ddatblygu'n ddysgwyr uchelgeisiol.

At ei gilydd, mae athrawon yn darparu profiadau difyr sy'n ysgogi disgyblion. Yn y rhan fwyaf o wersi lle mae'r addysgu gryfaf, mae'r staff yn cynllunio gweithgareddau dysgu diddorol yn yr ardaloedd dysgu sy'n cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu medrau cyfathrebu a chymdeithasol y disgyblion. Mae'r athrawon yn holi'n dreiddgar ac yn sicrhau bod y disgyblion yn dyfnhau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn effeithiol. Yn yr ychydig iawn o sesiynau lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, mae disgwyliadau athrawon rhy isel, mae rhediad y gwersi yn rhy araf, ac mae staff yn gor-gyfarwyddo'r dysgu. Yn ogystal, mae gorddibyniaeth ar y defnydd o daflenni parod yn llesteirio gallu'r disgyblion i ddatblygu eu hannibyniaeth wrth ddysgu.

Mae staff yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu hymwybyddiaeth ysbrydol, foesol a diwylliannol yn llwyddiannus. Er enghraifft, o fewn y gwasanaethau torfol, maent yn darparu cyfleoedd addas i'r disgyblion fyfyrio ar faterion moesegol allweddol. Mae llawer o'r disgyblion yn ystyried safbwyntiau a gwerthoedd eraill ac yn datblygu dealltwriaeth gadarn o unigolion sy'n wahanol iddyn nhw.

Mae'r athrawon yn darparu adborth amserol ac addas i'r disgyblion sy'n eu galluogi i fyfyrio ar yr hyn y maent yn ei wneud yn dda a'r hyn sydd angen ei wella. Yn yr arferion gorau, mae'r disgyblion yn ymwybodol o'r camau nesaf yn eu dysgu ac yn gweithredu ar hyn yn effeithiol. Mae hyn yn caniatáu i lawer o ddisgyblion wneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2025:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  16/07/2025